# Sylweddau niweidiol

Cardiau chwarae rôl:
**Sylwedd niweidiol**

## Beth sy'n digwydd?

Mae dau ffrind yn gwarchod brawd/chwaer iau un ohonynt tra bo eu rhieni allan am y noson. Mae'r ffrindiau'n gwylio'r Teledu tra bo'r plentyn yn chwarae i fyny'r grisiau. Maent yn mynd i fyny'r grisiau i roi'r plentyn yn y gwely. Maent yn gweld y plentyn yn eistedd ar y llawr yn pwyso ar ei wely. Mae'n edrych yn wael.

Cardiau chwarae rôl:
**Sylwedd niweidiol**

## Syniadau

- Crëwch label ffug sy'n dangos yr wybodaeth isod a'i hatodi i gynhwysydd gwag.

*"Fflamadwy iawn. Cadwch ef allan o gyrraedd plant. Os caiff ei lyncu, gofynnwch am gymorth meddygol ar unwaith. Cynhwysion: 20% o rywbeth, 50% o rywbeth, hefyd yn cynnwys hwn a'r llall."*

## Rolau

- Isod ceir amrywiaeth o rolau – mewn grwpiau bach, mae pob un yn dewis cymeriad i'w chwarae. Gwnewch yn siŵr bod pob un yn y grŵp yn cael cyfle i chwarae rôl pob cymeriad. Neu, darllenwch y senario fel stori.
- Treuliwch amser yn mynd i mewn ac allan o'r rôl.

## Sesiwn ôl-drafod

- Wedyn, treuliwch ychydig o amser yn trafod y stori. Gallech feddwl am y canlynol:
- Beth ddigwyddodd i'r un a oedd wedi llyncu rhywbeth niweidiol? Pa arwyddion o wenwyno a welwyd?
- Sut wnaeth y cynorthwyydd eu helpu?
- Beth wnaeth y gwyliwr? Beth allent ei wneud yn y dyfodol i fod yn gynorthwywr?

---

Cardiau chwarae rôl: **Sylwedd niweidiol**

## Brawd/chwaer iau

Mae'r unigolyn hwn wedi yfed o botel a oedd mewn cwpwrdd yn yr ystafell ymolchi. Mae'n teimlo'n sâl iawn.

Mae'n ifanc iawn, felly os yw'r brawd neu chwaer hŷn yn gofyn beth sydd wedi digwydd, ni fydd yn gallu dweud llawer.

Nid yw'n gwybod beth mae wedi ei yfed – dim ond ei fod yn rhywbeth o'r ystafell ymolchi.

---

Cardiau chwarae rôl: **Sylwedd niweidiol**

## Brawd/chwaer hŷn - cynorthwyydd

Mae'r unigolyn hwn yn gwarchod ei frawd/chwaer iau gyda ffrind. Mae'n amser gwely i'r plentyn ac mae'n mynd i fyny'r grisiau i'w baratoi ar gyfer mynd i gysgu. Mae'n gweld y brawd/chwaer iau yn eistedd ar y llawr yn pwyso ar y gwely. Mae'n edrych yn wael. Gall weld ei fod wedi llyncu rhywbeth gan fod ganddo rywbeth o gwmpas ei geg.

Mae'n poeni ac yn galw ar ei ffrind i ddod i fyny'r grisiau. Mae'n gofyn beth ddigwyddodd ac mae'r brawd/chwaer iau yn pwyntio at yr ystafell ymolchi. Mae'n mynd yno ac yn dod o hyd i botel cannydd yn agored ar y llawr. Mae'n ffonio 999 yn gyflym ac yn darllen y cynhwysion ar y botel i'r un sydd ar ben arall y ffôn.

---

Cardiau chwarae rôl: **Sylwedd niweidiol**

## Gwyliwr

Mae'r unigolyn hwn yn treulio'r noson yn gwarchod brawd/chwaer iau ei ffrind. Mae'r ffrind wedi mynd i fyny'r grisiau i gael y brawd/chwaer iau yn barod i fynd i'r gwely, ac yna mae'n clywed ei ffrind yn galw arno.

Mae'n mynd i weld beth sy'n digwydd ac yn dod o hyd i'r ffrind gyda'i frawd/chwaer iau, sy'n edrych yn wael. Mae ei ffrind yn dweud wrthych ei fod yn meddwl bod y plentyn wedi llyncu rhywbeth niweidiol o'r ystafell ymolchi.

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol.
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

CYMORTH CYNTAF

Nerth caredigrwydd

Y Groes Goch Brydeinig | British Red Cross